

Y Cyngorydd Debbie Wilcox  
Arweinydd  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

5 Mehefin 2018

Annwyl Gyngorydd Wilcox

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi lansio ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol heddiw. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn fel a ganlyn:

- deall pwysigrwydd amrywiaeth ymhlith cyngorwyr lleol, gan gynnwys yr effaith ar ymgysylltu â'r cyhoedd, trafod a gwneud penderfyniadau;
- deall y prif rwystrau i ddenu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol;
- trafod meysydd arloesedd ac arfer da a all helpu i gynyddu amrywiaeth ym maes llywodraeth leol; a
- thrafod effaith bosibl y cynigion ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, Cryfhau Llywodraeth Leol, i gynyddu amrywiaeth yn siambrau'r Cyngorau.


Rwyf wedi ysgrifennu at arweinwyr a phrif weithredwyr yr holl gyngorau i'w gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i helpu i lywio ein gwaith. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i glywed am brofiadau cynrychiolwyr lleol. O gofio hynny, rydym wedi llunio arolwg i gyngorwyr ac rydym wedi gofyn i arweinwyr y cyngorau dynnu sylw eu haelodau at yr arolwg hwn. Rydym hefyd yn gobeithio cwrdd ag aelodau yn lleol i drafod unrhyw rwystrau y gwnaethant eu hwynebu wrth sefyll mewn etholiadau a sut y gwnaethant lwyddo i oresgyn y rhwystrau hyn.



Bydd y Pwyllgor yn dechrau ei sesiynau tystiolaeth lafar yn gynnar yn nhymor yr hydref. Hoffwn eich gwahodd i un o'r sesiynau hyn, ac rwyf wedi gofyn i'r tîm clericio gysylltu â'ch swyddogion i wneud y trefniadau perthnasol.

Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo democratiaeth leol ac annog amrywiaeth, ac mae'r gymdeithas wedi dangos ymrwymiad clir i'r agenda hon. Hyderaf y bydd eich aelodau yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'n gwaith ar y mater hwn ac edrychaf ymlaen at eich croesawu i un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn gywir



John Griffiths AC  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

